Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mr Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11/04/2017

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â ymchwiliad y Pwyllgor 'Prentisiaethau yng Nghymru 2017'.

Wrth ohebu â mi mis Mehefin 2016 mynegodd Llywydd y Cynulliad ddymuniad i sicrhau nad yw ystyriaeth i'r Gymraeg yng ngwaith y pwyllgorau wedi'i gyfyngu i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn unig. Yn hytrach, nododd y Llywydd fwriad i'r holl bwyllgorau ystyried materion ymwneud â'r Gymraeg yng nghyd-destun eu cylchoedd gwaith. Awgrymodd hefyd i mi godi unrhyw bryderon o ran cyflawni'r weledigaeth honno â chadeiryddion y pwyllgorau perthnasol.

Yn unol â hynny, ysgrifennaf i dynnu eich sylw at ddiffyg ystyriaeth i'r Gymraeg yng nghylch gorchwyl ymchwiliad presennol eich pwyllgor i Brentisiaethau yng Nghymru.

Gofynnwch am sylwadau ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys hygyrchedd cyngor am lwybrau galwedigaethol, a hygyrchedd y cyrsiau hyn ar gyfer grwpiau oedran penodol, pobl o'r teuluoedd incwm isaf, a phobl ag anableddau; rhwystrau rhag cychwyn prentisiaethau; ac ymgysylltiad cyflogwyr â phrentisiaethau. Nid yw cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn gwahodd sylwadau'n ymwneud yn benodol â hygyrchedd prentisiaethau ar gyfer y rheini fyddai'n dymuno dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Prin yw sylw i'r Gymraeg mewn adolygiadau hanesyddol o raglenni Prentisiaethau yng Nghymru. Er enghraifft, ni fu sylw i'r Gymraeg yn yr adroddiad Prentisiaethau yng Nghymru gan y Pwyllgor Menter a Busnes yn 2012. Ni chyfeiriwyd at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr adroddiad Gwerth Prentisiaethau i Gymru a gyhoeddwyd gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ym mis Medi 2015. Byddai cynnwys y Gymraeg yn rhan ganolog o gylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn yn gyfle i lenwi bwlch o ran y dystiolaeth sydd ar gael ynghylch y Gymraeg o fewn prentisiaethau.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Dau barth canolog i ffyniant y Gymraeg yw addysg a gweithle. Ein system addysg yw'r brif ffynhonnell siaradwyr Cymraeg newydd. Mae defnydd y Gymraeg yn y gweithle yn ffordd o wella hyder siaradwyr Cymraeg i'w defnyddio, o godi statws yr iaith, a'i normaleiddio fel iaith bob dydd. Er hyn, gwyddys fod corff sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn colli eu sgiliau Cymraeg ar ddiwedd cyfnod addysg statudol. O ystyried hyn, mae rhaglenni dysgu seiliedig ar waith fel prentisiaethau yn gwbl allweddol er mwyn sicrhau dilyniant o'r byd addysg i'r byd gwaith mewn cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae hyn yn enwedig o bwysig yng nghyd-destun gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr y Gymraeg erbyn 2050. Nodwyd yn strategaeth y Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru ymgynghorwyr arni'n ddiweddar (mis Awst 2016)[1] bod rhaid '*gwella cyfraddau dilyniant rhwng y gwahanol gyfnodau addysg a'r byd gwaith*', gan gynnwys mewn rhaglenni prentisiaethau.

Mae addewid o 100,000 yn fwy o brentisiaethau i'r dyfodol. Mae hynny'n creu cyfle o ran cyflawni amcanion strategaeth newydd Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg, trwy gynyddu cyfleoedd i weithlu'r dyfodol ddefnyddio'r Gymraeg. Pryderaf fod diffyg ystyriaeth i'r Gymraeg wedi bod wrth adolygu rhaglenni Prentisiaethau yng Nghymru a bod hynny'n rhwystr i adnabod cryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth bresennol a sicrhau cynnydd dros y blynyddoedd i ddod.

Gofynnaf i chi ystyried ehangu cylch gorchwyl yr ymchwiliad er mwyn cynnwys ystyriaeth i ddefnydd y Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaethau. Nid yw'r Gymraeg ymhlyg mewn agweddau eraill ar y cylch gorchwyl presennol. Byddai cynnwys y Gymraeg fel agwedd benodol yn y cylch gorchwyl yn fodd o ddenu tystiolaeth ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg bresennol a thrwy hynny lenwi'r bwlch sy'n bodoli.

Mae'n fwriad gen i rannu'r dystiolaeth sydd gennyf ynghylch y Gymraeg o fewn prentisiaethau. Rwy'n sicr y byddai personau eraill yn gwneud hynny hefyd pe bai'r galw am dystiolaeth berthnasol yn rhan o gylch gorchwyl yr ymchwiliad.

Yr eiddoch yn gywir,

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

[1] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation_doc_files/160729-consultation-language-cy.pdf